department for
culture, media
and sport

Canllaw i Fangre Gymunedol: Ceisiadau i Bwyllgor Rheoli gymryd lle Goruchwyliwr Mangre Dynodedig

Deddf Trwyddedu 2003

Chwefror 2010

improving
the quality
of life for all

Ein hamcan yw gwella ansawdd bywyd i bawb trwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r cais am ragoriaeth a hyrwyddo'r diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Canllaw

Cais gan Fangre Gymunedol i Amnewid y Gofyniad i gael Goruchwyliwr Mangre Dynodedig gyda Phwyllgor Rheoli.

Cyffredinol

Ers 24 Gorffennaf 2009, mae'n bosibl i neuaddau cymunedol, eglwys a phentref wneud cais i ddiddymu'r amodau gorfodol yn adran 19(2) a (3) y Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") i gael goruchwyliwr mangre dynodedig ("DPS") sy'n ddeiliad personol y drwydded i awdurdodi pob cyflenwad o alcohol a'u hamnewid gydag amod trwyddedu arall y cyfeirir ato yn adran 25A(6) y Ddeddf, ble mae pwyllgor rheoli yn gyfrifol am gyflenwi alcohol. Mae hyn yn diddymu rhywfaint o'r baich cysylltiedig fyddai'r amodau gorfodol yn gosod ar wirfoddolwyr fel arall.

Nid oes datgymhwysiad awtomatig o'r amodau parthed unrhyw fangre. Rhaid i bwyllgor rheoli neuadd gymunedol, eglwys neu bentref sydd eisiau diddymu'r amodau o drwydded bresennol, neu sydd am wneud cais am drwydded nad yw'n eu cynnwys, wneud cais i'w awdurdod trwyddedu lleol i gael dileu'r amodau, a gosod yr amod amgen yn ei le.

Mae'r mathau o geisiadau y gellir eu cyflwyno fel a ganlyn:

- Os oes gan fangre gymunedol **eisoes drwydded yn awdurdodi gwerthu alcohol**, gall wneud cais i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros awdurdodi gwerthiant alcohol o'r unigolyn sy'n gweithredu fel DPS i'r Pwyllgor Rheoli.
- Os yw mangre gymunedol eisiau gwneud cais i ychwanegu gwerthu alcohol i'w drwydded mangre presennol, gall ofyn ar yr un pryd i'r pwyllgor rheoli, yn hytrach nag unigolyn, fod yn gyfrifol am awdurdodi gwerthiant alcohol.
- Os yw mangre gymunedol yn gwneud cais newydd am drwydded mangre sy'n cynnwys gwerthiant alcohol, gall ofyn ar yr un pryd i'r pwyllgor rheoli, yn hytrach nag unigolyn, fod yn gyfrifol am awdurdodi gwerthiant alcohol.

Pwy all Ymgeisio?

Rhaid i'r cais ddod o bwyllgor neu fwrdd gyda chyfrifoldeb dros reoli'r fangre gymunedol.

Bwriedir cael 'pwyllgor' neu 'fwrdd o unigolion' i fod yn gyfrifol am unrhyw bwyllgor neu strwythur rheoli a gyfansoddwyd yn ffurfiol, sy'n dryloyw ac atebol. Dylai fod â'r gallu i ddarparu digon o oruchwyliaeth o'r fangre i leihau unrhyw risg i'r amcanion trwyddedu a allai godi o ganiatáu trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros oruchwylio gwerthiant alcohol o oruchwyliwr dynodedig mangre. Gall hyn gynnwys pwyllgorau rheoli, pwyllgorau gwaith a byrddau ymddiriedolwyr. Mae'r ffurflen gais yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu enwau swyddogion allweddol y pwyllgor rheoli e.e. y Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd.

Efallai y bydd mangre gymunedol eisiau gwirio gyda'r awdurdod trwyddedu cyn gwneud cais.

Diffiniad o Fangre Gymunedol

Gan amlaf, fe ddylai fod yn amlwg os yw mangre yn, neu'n llunio rhan o, fangre gymunedol megis neuadd eglwys, neuadd capel, neuadd bentref, neuadd blwyf, neuadd gymunedol neu adeilad tebyg.

Mae'r meini prawf yr un rhai â'r rhai a ddefnyddir at ddibenion eithrio ffioedd, felly bydd mangre sydd eisoes â thrwydded mangre ac yn gymwys i'w heithrio o ffioedd am adloniant rheoledig hefyd yn 'fangre gymunedol' at y dibenion hyn.

Os nad yw'n glir, y prif faen prawf fydd beth yw defnydd mwyaf cyffredin y fangre. Bydd mangre sydd ar gael er lles y gymuned y rhan fwyaf o'r amser ac sydd yn hygyrch i ystod eang o bobl a sectorau o'r gymuned, gan gynnwys at ddibenion sy'n llesol i'r gymuned yn gyffredinol, yn debygol o fodloni'r diffiniad.

Mae nifer o fangreoedd megis ysgolion a neuaddau preifat ar gael i'w llogi gan y cyhoedd. Ni fyddai hyn ynddo'i hun yn ddigon i fangre o'r fath fod yn gymwys fel mangre gymunedol. Er y gellid ystyried eu bod yn darparu cyfleuster i'r gymuned, bydd awdurdodau trwyddedu yn ystyried p'un a yw neuadd a ddefnyddir yn bennaf i'w llogi'n breifat gan unigolion neu endidau preifat yn 'fangre gymunedol' gwirioneddol o ran natur. Y prawf yw p'un a yw defnydd pennaf y fangre er lles y gymuned yn hytrach nag ar gyfer aelodau'r gymuned at ddibenion preifat.

Os yw defnydd cyffredinol y fangre yn ddibynnol ar aelodaeth o sefydliad penodol, byddai hyn yn awgrym cryf nad yw'r fangre dan sylw yn 'fangre gymunedol' o fewn y diffiniad. Fodd bynnag, ni fyddai llogi'r fangre i sefydliadau a defnyddwyr unigol a fyddai'n cyfyngu eu gweithgareddau i'w haelodau a gwesteion eu hunain o reidrwydd yn gwrthdaro â statws y fangre fel 'mangre gymunedol', ar yr amod bod y fangre ar gael yn gyffredinol i'w defnyddio gan y gymuned yn yr ystyr a ddisgrifir uchod.

Pwy fydd yn Gyfrifol am Gydymffurfio â'r Gyfraith?

Fel deiliad trwydded y fangre, bydd y pwyllgor rheoli eisoes yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau cydymffurfiad ag amodau'r drwydded a'r gyfraith (ac fe allant ddal i fod yn atebol i erlyniad os cyflawnir troseddau dan y Ddeddf), er nad yw hyn yn golygu bod yn rhaid i aelod unigol o'r Pwyllgor fod yn y fangre ar bob adeg pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd.

Er mai'r pwyllgor rheoli fydd yn bennaf gyfrifol, os yw'r fangre wedi ei llogi, gellir nodi mai'r llogwr sy'n amlwg yn gyfrifol am faterion sydd o fewn eu rheolaeth (e.e. dan y cytundeb i logi a gynigir gan ddeiliad y drwydded), yn yr un modd ag y gall trefnwr y digwyddiad fod yn atebol am ddigwyddiad a

gynhelir dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Os darperir y llogwyr â chrynodeb clir, ysgrifenedig o'u cyfrifoldebau dan y Ddeddf parthed gwerthiant alcohol, mae'n debyg yr ystyrir bod y pwyllgor rheoli wedi cymryd camau digonol i osgoi atebolrwydd am erlyniad os cyflawnir trosedd trwyddedu.

Y Ffi

Y ffi i wneud cais am amnewid y gofyniad i gael DPS gyda'r amod trwyddedu amgen yw £23. Nid oes angen talu dim byd arall tu hwnt i'r ffi bresennol i gynnwys yr amod trwyddedu amgen fel rhan o gais newydd neu amrywiad.

Hysbysebu

Nid oes unrhyw ofyniad i hysbysebu cais i gynnwys yr amod trwyddedu amgen.

Gwrthwynebiadau i Gais

Dim ond Prif Swyddog yr Heddlu all wrthwynebu cais i gynnwys yr amod trwyddedu amgen ar sail trosedd ac anrhefn. Bydd yr heddlu yn ystyried unrhyw hanes o ddigwyddiadau mewn sefydliad o ganlyniad i drefniadau rheoli gwir neu arfaethedig, yn cynnwys y defnydd o gytundebau llogi priodol. Os yw Prif Swyddog yr Heddlu yn cyhoeddi hysbysiad yn gofyn am wrthod y cais i gynnwys yr amod trwyddedu amgen, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad er mwyn dod i benderfyniad ar p'un ai i ddyfarnu'r cais neu beidio.

Os dyfarnir yr amod trwyddedu amgen, gall unrhyw awdurdod cyfrifol fel y diffinnir yn adran 13(4) y Ddeddf ac/neu barti cyfrannog fel y diffinnir yn adran 13(3) y Ddeddf geisio adfer yr amodau i gael DPS trwy adolygiad trwydded (fel y darparwyd yn adran 52A y Ddeddf).

Apeliadau

Os bydd Prif Swyddog yr Heddlu wedi gwneud sylwadau perthnasol yn erbyn cynnwys yr amod trwyddedu amgen, neu wedi rhoi hysbysiad dan adran 41D(6) y Ddeddf na chafodd ei dynnu yn ôl, gall Prif Swyddog yr Heddlu apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod trwyddedu i ganiatáu cynnwys yr amod trwyddedu amgen.

Yn yr un modd, gall mangre gymunedol apelio penderfyniad gan yr awdurdod trwyddedu i wrthod cynnwys yr amod trwyddedu amgen yn dilyn gwrandawiad a ysgogwyd gan sylwadau perthnasol neu gan hysbysiad a wnaed dan adran 41D(6). Yn dilyn arolwg o'r drwydded ble adferir yr amodau gorfodol, gall deiliad y drwydded apelio yn erbyn y penderfyniad. Os cedwir yr amod trwyddedu amgen wedi arolwg, gall ymgeisydd yr arolwg neu unrhyw unigolyn a wnaeth sylwadau perthnasol apelio yn erbyn y penderfyniad.

Gweithdrefn ar gyfer Gwneud Cais i Amnewid yr Amodau Trwydded

Y Ffurflen Gais

Mae'r ffurflen ar gael o wefan eich awdurdod trwyddedu lleol neu o'r dudalen ffurflenni cais alcohol ac adloniant ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Os ydych yn gwneud cais ar-lein trwy'r Cyfleuster Ceisiadau Electronig ar www.businesslink.gov.uk neu gyfleuster electronig eich awdurdod trwyddedu (os oes un ar gael), fe ofynnir i chi gwblhau ffurflen gais ar-lein.

http://www.culture.gov.uk/what_we_do/alcohol_and_entertainment/3189.aspx#dps

Rydym yn eich cynghori i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl ac yn hytrach na gadael unrhyw adran yn wag, eich bod yn nodi nad yw'n berthnasol. Efallai yr hoffech hefyd drafod eich cais gyda'r swyddog trwyddedu lleol cyn cwblhau'r ffurflen.

RHAN 1 – Manylion y Fangre

Gan fod y ffurflen yn gofyn i bwyllgor neu fwrdd gyflwyno'r cais, rhaid i chi ddarparu enw'r pwyllgor neu fwrdd yn hytrach nag aelod unigol o'r pwyllgor neu fwrdd.

Mae'r manylion fydd eu hangen yn yr adran hon yn ymwneud â'r fangre ei hun (yn hytrach na'r pwyllgor). Os nad oes gan y fangre gyfeiriad post, e.e. os yw'r cais yn ymwneud â thir agored, dylech ddisgrifio lleoliad y fangre neu roi cyfeirnod map Arolwg Ordnans. Dylech hefyd roi rhif ffôn y fangre yn unig (os oes un) yn yr adran hon, yn hytrach na phwynt cyswllt oddi ar y fangre.

Mae'r adran hon hefyd yn gofyn am ddisgrifiad o'r fangre a chyfansoddiad y pwyllgor neu fwrdd sy'n gyfrifol am reoli'r fangre. Mae'n bwysig rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn defnyddio'r wybodaeth hon i farnu p'un a yw'r fangre'n 'fangre gymunedol' gwirioneddol. Os oes gennych unrhyw ddogfennau i ddangos strwythur y fangre a sut y'i rheolir, fe'ch cynghorir i gynnwys y rhain. Noder, fodd bynnag, mai dim ond enwau swyddogion allweddol y pwyllgor neu fwrdd, megis y Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd ac ati, fydd angen eu henwi.

Mae'r adran hon hefyd yn gofyn am ddisgrifiad o sut fyddwch yn sicrhau y goruchwylir gwerthiant alcohol yn briodol a pha drefniadau a sefydlwyd (os o gwbl) gennych ar gyfer llogi'r fangre. Dim ond os ydynt yn fodlon y bydd y cyflenwad o alcohol yn cael ei oruchwylio'n gywir dan wahanol amgylchiadau yn absenoldeb DPS fydd awdurdod trwyddedu yn dyfarnu'r amod trwyddedu amgen. Mae'n bwysig cynnwys sut y pennir cyfrifoldeb ar gyfer gwerthiant alcohol mewn achosion unigol a sut fydd hyn yn cael ei drafod/adolygu o fewn gweithdrefn y pwyllgor neu fwrdd os bydd unrhyw broblemau'n codi. Rydym yn eich cynghori i gynnwys copïau o unrhyw drefniadau llogi sy'n disgrifio'r trefniant rhwng y fangre gymunedol a'r parti sy'n llogi. Mae enghreifftiau o gytundebau llogi ar gael gan ACRE a Community Matters:

http://www.acre.org.uk/

http://www.communitymatters.org.uk/

RHAN 2 – Manylion yr Ymgeisydd

Mae'r adran hon yn gofyn am rif ffôn a chyfeiriad (os oes un) i gysylltu â'r pwyllgor. Gall fod yn rif ffôn a chyfeiriad aelod unigol o'r pwyllgor (megis yr Ysgrifennydd) os mai dyma a ddefnyddir i gysylltu â'r pwyllgor.

Mae'r adran hon hefyd yn gofyn i chi ddatgan p'un a ydych wedi amgáu trwydded y fangre. Dylid ei chynnwys ar gyfer pob cais i gymryd lle'r gofyniad i gael DPS gyda'r amod trwyddedu amgen a cheisiadau i amrywio trwydded bresennol i ychwanegu'r cyflenwad o alcohol ac i gynnwys y drwydded mangre amgen. Os na allwch gynnwys trwydded y fangre, esboniwch pam yn glir. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, gallwch gynnwys copi wedi ei sganio o drwydded y fangre.

Mae yna restr wirio hefyd i sicrhau'ch bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae wedi ei rhannu'n ddwy adran. Dim ond mangre sydd eisoes â thrwydded i awdurdodi gwerthiant alcohol fydd angen cynnwys y ffi atodol. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, ni ddylech dicio'r datganiad yn datgan eich bod wedi anfon copïau o'r cais i'r awdurdodau cyfrifol, gan y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwneud hyn.

Ar gyfer mangre sy'n gwneud cais ynghyd â chais am drwydded mangre newydd neu gais i amrywio trwydded mangre bresennol i ychwanegu cyflenwi alcohol, dylid hefyd cynnwys dogfennau sy'n dynodi'r fangre a sut y'i rheoli a chopïau o unrhyw gytundebau llogi hefyd. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, bydd angen i chi anfon copïau electronig o'r dogfennau hyn gyda'ch cais. .

RHAN 3 – Llofnodion

Os ydych yn gwneud cais ysgrifenedig, rhaid i ddau aelod o'r pwyllgor rheoli lofnodi'r ffurflen gais. Nodwch ym mha rinwedd mae'r llofnodwr yn llofnodi'r cais, megis Cadeirydd y Pwyllgor, aelod o'r Pwyllgor, Ysgrifennydd ac ati.

Os ydych yn gwneud cais ar-lein, gallwch naill ai ddefnyddio llofnodion electronig os oes genych rai, neu os nad oes, adael yr adrannau hyn y ffurflen yn wag a rhoi enwau'r ddau aelod o'r pwyllgor.

Mae'r adran hon hefyd yn gofyn am enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt ar gyfer unrhyw ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais os na roddwyd y manylion yn yr adrannau blaenorol. Os hoffech ddefnyddio'r manylion mewn adran flaenorol, nodwch yn glir pa fanylion yr hoffech ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth.

Yna anfonwch eich ffurflen gyflawn at eich awdurdod trwyddedu lleol. Os ydych yn gwneud cais ysgrifenedig, dylech hefyd anfon copi o'r ffurflen at Brif Swyddog yr Heddlu. Os ydych yn gwneud cais electronig, bydd yr awdurdod trwyddedu yn anfon copi o'r ffurflen at yr Heddlu.

<u>Rôl yr Awdurdodau Trwyddedu</u>

Pan fydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn eich cais, bydd yn ystyried y canlynol:

- P'un a yw'r ymgeisydd, neu a fydd yr ymgeisydd, yn bwyllgor neu fwrdd o unigolion gyda chyfrifoldeb dros reoli'r fangre.
- P'un a yw'r fangre yn 'fangre gymunedol'.
- P'un a yw'n fodlon bod trefniadau'r pwyllgor neu fwrdd i reoli'r fangre yn ddigonol i sicrhau goruchwyliaeth briodol o'r cyflenwad o alcohol ar y fangre dan wahanol amgylchiadau, megis pan fydd y fangre wedi ei logi i bartïon preifat.
- P'un a fydd amnewid y gofyniad i gael DPS gydag amod trwyddedu amgen yn cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Amserlenni

Mae'r amserlenni ar gyfer ceisiadau yn adlewyrchu'r broses o ymgeisio am ddyfarnu trwydded mangre neu i amrywio trwydded mangre. Yn gyffredinol, mae fel a ganlyn:

Wrth wneud cais am drwydded newydd gyda'r amod trwyddedu amgen neu wrth wneud cais i amrywio'r drwydded i ychwanegu alcohol gyda'r amod trwyddedu amgen, rhaid i'r ymgeisydd gopïo'r cais i'r holl awdurdodau cyfrifol ar yr un diwrnod ag yr anfonir y cais at yr awdurdod trwyddedu. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, bydd yr awdurdod trwyddedu yn copïo eich cais i awdurdodau cyfrifol ar neu cyn y diwrnod gwaith cyntaf wedi i chi gyflwyno cais dilys a thalu'r ffi.

Os mai'r unig gais yw gofyniad i ddiddymu'r angen i gael DPS o drwydded bresennol, rhaid i'r ymgeisydd gopïo'r cais i'r heddlu ar yr un diwrnod ag yr anfonir y cais at yr awdurdod trwyddedu. Os ydych yn gwneud cais ysgrifenedig, dylech hefyd anfon copi o'r ffurflen at Brif Swyddog yr Heddlu. Os ydych yn gwneud cais electronig, bydd yr awdurdod trwyddedu yn anfon copi o'r ffurflen at yr Heddlu.

Rhaid cyflwyno sylwadau o fewn 28 niwrnod o gyflwyno'r cais i'r awdurdod trwyddedu. Rhaid cynnal gwrandawiad, os derbynnir sylwadau, o fewn 20 niwrnod gwaith o'r dyddiad olaf pan ellid fod wedi cyflwyno sylwadau. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu benderfynu o fewn 5 niwrnod gwaith o ddyddiad olaf y gwrandawiad.

Ar ôl Dyfarnu Cais

Anogir y pwyllgor rheoli i hysbysu'r awdurdod trwyddedu yn ysgrifenedig os oes unrhyw newidiadau allweddol i gyfansoddiad y pwyllgor, megis i'r Cadeirydd, Ysgrifennydd neu'r Trysorydd, ac i gyflwyno copi i Brif Swyddog yr Heddlu. Gallai methiant i wneud hynny fod yn sail i gais i adolygu'r drwydded mangre os oes gan awdurdod cyfrifol neu barti cyfrannog bryder y gallai hyn gynrychioli risg i'r amcanion trwyddedu, neu fod yn rhan o ystyriaeth o gais o'r fath.

Mae Canllaw pellach ar gael ar wefan DCMS

http://www.culture.gov.uk/images/publications/LicencingAct-2003-182-LaidSupplementaryGuidance.pdf

department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk